

Y mae i bob oes a gwlad eu harwyr, a thyrfaoedd yn eu dilyn. Nid oes rhaid dweud mai gwahanol iawn yw arwyr Cymru heddiw i'r hyn oeddynt hanner canrif a chanrif yn ôl. Pennaf arwyr Cymru dros hanner canrif yn ôl oedd ei phregethwyr, ei beirdd, ei llenorion, ei cherddorion a'i chantorion. Roedd llawer o'u henwau yn hyddysg i'r werin a llawer o bobl yn frwd am eu llwyddiant.

Nid gormodiath haeru mai pregethwyr yr Efengyl oedd prif arwyr y genedl. Nid oedd yr arfer yn bod flynyddoedd yn ôl o restru'r 'Deg Uchaf' fel sy'n dra chyffredin heddiw gyda chwaraewyr a chwaraeon, a chanwyr pop o bob math ac ymlaen. Ond y mae ambell eithriad i bob rheol. Deuthum ar draws, yn y Llyfrgell Genedlaethol, restr ddiddorol iawn mewn Papur Wythnosol nid anenwog yn y 'tri degau'. Roedd y papur hwnnw wedi gofyn i'w ddarllenwyr bleidleisio a dewis chwech o bregethwyr enwocaf Cymru, a chwech o feirdd enwocaf Cymru ar y pryd. Ac mewn rhifyn diweddarach dyma gyhoeddi'r ddwy 'Restr' yn ôl nifer y pleidleisiau i bob un. Ni nodir nifer y pleidleisiau a gafodd pob un.

<i>Pregethwyr</i>	<i>Beirdd</i>
D. Tecwyn Evans	T. Gwynn Jones
Jubilee Young	Cynan
H. Elvet Lewis	Elfed
Philip Jones	R. Williams Parry
Moelwyn Hughes	Crwys
H. Harris Hughes	W. J. Gruffudd

Y mae'r rhestr nid yn unig yn ddiddorol a dadlennol, ond hefyd yn dystiolaeth i boblogrwydd y pregethwyr a'r beirdd. Dywed llawer am ddiddordebau a meddylfryd gwerin Cymru tua thrigain mlynedd yn ôl. Dilynai tyrfaoedd ar draws gwlad i wrando ar bregethu'r Efengyl i Gymanfa a Sasiwn ac Undeb. Ymgynullent llawer tro mewn pabell neu yn yr awyr agored, am fod yr addoldai yn rhy fach i gynnwys y miloedd. Nid oedd unrhyw sôn nac arwydd o hwlganiaeth na fandaliaeth fel sy'n rhy gyffredin heddiw.

Y gŵr a enwir ar ben rhestr y pregethwyr yw gwrthrych y llyfr *Cofio Tecwyn*. Cymharol ychydig, o reidrwydd, sy'n ei gofio heddiw oherwydd bu farw, yn bedwar ugain oed, yn 1957, bron i hanner canrif yn ôl. Nid oes dim sy'n sicrach nad yw'n haeddu ei gofio. Cymharol ychydig o sôn a fu amdano ar ôl ei farwolaeth, a chofio helaethrwydd ei gyfraniad dros gyfnod maith. Y mae un eithriad i hyn. Gwelodd golygydd *Yr Eurgrawn* (Y Parchedig Gwilym R. Tilsley) yn dda i neilltuo rhifyn Gaeaf 1976 o'r *Eurgrawn* yn gyfan (64 tudalen) i ddathlu canmlwyddiant geni D. Tecwyn Evans.

Ganed Tecwyn yn Llandecwyn, Sir Feirionnydd, fel yr awgryma ei enw, ond teg cydnabod nad yw pob Tecwyn wedi ei eni yn Llandecwyn! A rhyfedd yw ychwanegu nad oedd Tecwyn yn rhan o'i enw yntau ar y dechrau. Bedyddiwyd a chofrestrwyd ef yn 'David Evans'. Pan oedd yn blentyn a hogyn ar ei dyfiant, byddai'n cystadlu llawer mewn eisteddfodau lleol ar adrodd ac ysgrifennu traethodau, annerch ar destun a roddid ar y pryd ac ar ganu unwaith neu ddwy. Galwai ei hun ar achlysuron fel hyn yn 'Dewi Tecwyn'. Yr oedd wrth ei fodd hefyd yn gwrandao ar bregethau ers yn ifanc iawn. Y mae tystiolaeth Tecwyn amdano'i hun pan oedd yn naw a hanner blwydd oed yn

cyffwrdd â bys ei law ag esgid John Evans, Eglwysbach, pan oedd y pregethwr grymus hwnnw'n pregethu, yn ymddangos yn anhygoel i ni heddiw, ac y mae'n enghraifft glasurol o arwr-addoliaeth. (Yr oedd John Evans, ar y pryd, yn pregethu yn yr awyr agored oddi ar wagen ym Mlaenau Ffestiniog a'r hogyn bach [DTE] yn eistedd ar y wagen wrth ei draed).

Daeth yn amlwg yn gynnar iawn mai holl



D. Tecwyn Evans 1877-1957.

fryd Tecwyn oedd pregethu'r Efengyl. Pan oedd yn ugain oed bu'n cyd-bregethu gyda John Evans yn Senghennydd, Morgannwg. Dyna'r pryd y perswadiodd John Evans ef i ollwng gafael yn y 'Dewi Tecwyn' a glynu wrth yr enw D. Tecwyn Evans, ac felly y bu.

Yn fuan wedi dechrau ei weinidogaeth, profodd o ddylanwadau Diwygiad 1904-1905 a gwelodd oedfaon yn ferw o foliant ac oedfaon eraill yn angerddol ddwys. Teimlodd yn bersonol rymusteraw ysgytiol y Diwygiad yn Ninbych, yn Abergele ac yn Rhosllannerchrugog. Aeth yn unswydd i gwrdd ag Evan Roberts, y Diwygiwr yn Tylorstown, Rhondda Fach. Gadawodd y 'Diwygiwr' argraff ddofn arno.

Pan ddaeth y radio, neu fel y'i gelwid y pryd hwnnw, *wireless*, yn gyfrwng darlledu oedfaon o ddechrau'r tri degau ymlaen, darlledodd ef oedfaon a sgysiau radio yn amlach (mi gredaf na neb arall yn ei oes. Bu un o'i oedfaon grymusaf ar y radio, o Gapel Sant Paul, Abergele ar 6 Chwefror 1938, yn brofiad cofiadwy am oes i lawer iawn, (cofiat yn fyw am yr oedfa honno fy hun). Nid yw ef, yn ei ddyddiaduron, yn sôn dim am ei brofiadau a'i feddyliau mewn oedfaon a chyfarfodydd. Y ffaith yw nad oedd lle i ddim ond enwau'r eglwysi, a'r bobl a'i lletyai ac amserau bysiau a threnau - ni bu erioed yn berchen modur, ond y mae eithriadau prin iawn o sylw neu ddau yn y dyddiaduron. Dywed ar ôl oedfa ddarlledu Sant Paul, Abergele, mewn inc coch, 'Derbyn dros y Deyrnas Gyfunol 317 o lythyrau yn diolch am yr oedfa'. (Y mae tri chant un deg a saith o lythyrau yn barsel gyda'i gilydd yn y Llyfrgell Genedlaethol, a phrofiad arbennig oedd eu darllen).

Dywed ei gyfaill agos, y Parchedig E. Tegla Davies pan oedd newydd glywed am farwolaeth D. Tecwyn Evans:

'Yr oedd popeth o'i blaid, - corff tal, lluniaidd, llais muyn, dawn llefaru, gallu i osod ei bethau gerbron yn glir a chymesur, iaith loyw, a lefariad croyw, oslef dodeddig a lethai

gynulleidfa yn llwyr... adnabyddiaeth drwyadl o wirioneddau canolog yr Efengyl, urddas mawr yn ei fodd o ddelio â hwy, ac eneiniaid.'

(Y Cymro, Hydref 31 1957, t.1)

Wrth gydnabod ei ddylanwad fel pregethwr yr Efengyl am dros drigain mlynedd, yn Gymraeg yn amlaf ond hefyd yn Saesneg yn mhrif ganolfannau Lloegr, a bu deirgwaith ar daith bregethu yn yr Unol Daleithiau, byddem yn gwneud cam ag ef os syniwn amdano fel pregethwr yn unig.

Darlithiodd llawer ar hyd a lled gwlad, a gellir dweud fod ei ddarlithiau ar yr un donfedd â'i bregethau. Yn *Eurgrawn*, Gaeaf 1976 (y cyfeiriwyd ato eisoes) yn y bennod ar 'Y Darlithydd' ysgrifenna'r Parchedig H. Meilir Pennant Lewis:

'Gellir edrych ar ei ddarlithiau fel ymestyniad o'i bregethau, neu baratoad ar eu cyfer. Awgrymir hynny gan y pynciau a ddewisai - 'Y Beibl Cymraeg', Llyfr Jonah, Llyfr Job, John Evans Eglwysbach, John Puleston Jones... pan fentrodd i fyd emynyddiaeth lluniodd ddarlith - 'Ann Griffiths' - sy'n sefyll yn hollol ar ei phen ei hun ac y cytunai llawer amdani mai hon yw'r orau i gyd.'

Y mae adroddiad papur newydd amdano yn pregethu a darlithio ym Mrynaman:

'Cynhaliai y Parch. D. Tecwyn Evans Wyl Bregethu yn 'Gibe' ar y nos Sadwrn a'r Sul... Nos Lun caed un o'r darlithiau gorau a draddodwyd erioed ym Mrynaman gan y Parch. D. Tecwyn Evans. Ei destun oedd 'Ann Griffiths' yr emynyddes anfarwol. Yr oedd tua mil o bobl ynghyd yn gurando ar yr areithiwr huawdl yn traethu ar ei uchelfannau. Aeth dwygarw heibio fel ychydig funudau. Nid anghofion byth y wledda a gawsom. Cynigiwyd diolchgarwch i'r darlithydd gan y Parch. Rhystud Davies a darllenodd englyn:

*Y Parch. Tecwyn Evans
Tecwyn gyda'i swyn a'n swynodd - yn deg
Y dorfa wrefreiddiodd,
Yn hwyylus pob clust a hoeliodd
Â'i araith frwd, werthfawr rodd.*

Rhaid cyfeirio ato fel Golygydd, a phrin mwy na chyfeirio am y tro. Bu'n Olygydd *Yr Eurgrawn* (oedd yn gylchgrawn misol yr Eglwys Fethodistaidd: y cylchgrawn Cymraeg hynaf yn yr iaith fel y byddai DTE yn hoffi eni hatgoffa'n aml) am un mlynedd ar hugain, o 1931-1951. Golygodd ef â graen nodedig. Diamau mai dyma ei gyfraniad llenyddol pennaf. Y mae ei 'Nodiadau Golygydd' o fis i fis yn afaelgar, amrywiol a diddorol. Buasai detholiad o'r 'Nodiadau' hyn yn gyfrol swmpus a gwerthfawr.

Ni ddywedwyd mo'r chwarter, ond dywedwyd digon gobeithio i godi blas am ragor a chadw mewn cof lafur cariad y gŵr diwyd a hawddgar hwn. Efallai mai priodol terfynu hyn o lith trwy roddi teitl pob un o'r unarddeg o benodau'r gyfrol, ac y mae'r llyfr yn cynnwys nifer o 'Atodiadau' sy'n cyfleu gwerthfawrogiad o wasanaeth ffyddlon gweithwyr yn y Winllan yn ei oes ef.

1. Dechrau'r Daith
2. Paratoi'r Ffordd
3. Y Weinidogaeth Deithiol
4. Uwchrif - Ymdeol
5. Ei Ddiddordebau
6. Yr Ieithydd a'r Awdur
7. Y Cyfieithydd a'r Emynydd
8. Y Golygydd
9. Y Darlithydd
10. Y Pregethwr
11. Y Dyn a'r Cyfaill